

# Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Fersiwn 3.6 Mai 2017

Diben yr asesiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth gytbwys i gefnogi'r gwaith o wneud penderfyniadau a hyrwyddo dulliau gwell o weithio yn unol â chydraddoldeb (Deddf Cydraddoldeb 2010), hyrwyddo'r Gymraeg (Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011), datblygu cynaliadwy (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a phedwar paramedr y drafodaeth ynghylch tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd (Adroddiad Llawn Comisiwn Tegwch Casnewydd i'r Cyngor 2013).

**Cwblhawyd gan:** Deborah Weston

**Swydd:** Rheolwr Gwasanaeth

**Pennaeth Gwasanaeth:** Prif Swyddog Addysg

**Dyddiad:** 05/03/2020

**Cadarnhaf fod y Pennaeth Gwasanaeth uchod wedi cymeradwyo cynnwys yr asesiad hwn**

Do / Naddo

**Pan gwblhewch yr AEDCh hwn, eich cyfrifoldeb chi fydd ei gyflwyno i**

[impact.assessments@newport.gov.uk](mailto:impact.assessments@newport.gov.uk)

## 1. Enw a disgrifiad o'r polisi / cynnig a asesir. Amlinellwch ddiben y polisi.

### Polisi Derbyn i Ysgolion Cyngor Dinas Casnewydd 2021/22

Dan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, mae'r Cyngor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaeth derbyn i ysgolion ar gyfer pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yng Nghasnewydd. Fel awdurdod derbyn, mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru a'r Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion.

Mae'n ofyniad statudol yn y Cod Derbyn i Ysgolion bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad blynyddol ar ei drefniadau derbyn i ysgolion. Rhaid i'r ymgynghoriad ddod i ben erbyn 1 Mawrth bob blwyddyn fel y gellir penderfynu ar y trefniadau derbyn sy'n deillio o hynny, naill ai ar eu ffurf wreiddiol neu gyda'r cyfryw addasiadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.

Felly lanswyd ymgynghoriad ar 8 Ionawr 2020 a ddaeth i ben ar 28 Chwefror 2020 mewn perthynas â'r trefniadau derbyn arfaethedig ar gyfer Medi 2021 ymlaen, ac mae adroddiad ymgynghori wedi'i ddrafftio sy'n disgrifio'r broses ymgynghori a'r adborth a gafwyd. Erbyn hyn mae'n ofynnol ystyried yr adborth hwn ac o ganlyniad i benderfynu ar bolisi derbyn i ysgolion y Cyngor ar gyfer Medi 2021.

Mae'r cynigion ar gyfer newid fel a ganlyn:

1. Ailddiffinio dalgyrch Ysgol Gyfun Caerllion i gyd-fynd â ffin Cyngor Dinas Casnewydd, gan ddileu pob ardal o Sir Fynwy a Thorfaen o'r dalgyrch;
2. Symud Ysgol Gynradd Somerton o glwstwr a dalgyrch Llyswry i glwstwr a dalgyrch Llanwern;
3. Disodli'r lle gwarantiedig mewn ysgol i blant personél lluoedd arfog y DU mewn unrhyw ysgol o'u dewis gydag ysgol y dalgyrch;
4. Dileu'r flaenoriaeth benodol ar gyfer plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

**2. Amlinellwch sut rydych chi wedi/sut byddwch chi'n cynnwys y rhanddeiliaid y bydd y polisi/cynnig hwn yn effeithio arnynt.**

Mae'n ofyniad statudol yn y Cod Derbyn i Ysgolion bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad blynyddol ar ei drefniadau derbyn i ysgolion. Rhaid i'r ymgynghoriad ddod i ben erbyn 1 Mawrth bob blwyddyn fel y gellir penderfynu ar y trefniadau derbyn sy'n deillio o hynny, naill ai ar eu ffurf wreiddiol neu gyda'r cyfryw addasiadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.

Ym mis Medi 2019, a chyn i'r cynnig gael ei lansio, hysbyswyd ALLau Sir Fynwy a Thorfaen ei bod yn debygol y byddai Casnewydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y sail hon. Ym mis Tachwedd 2019, cyflwynwyd y newidiadau arfaethedig i fforwm Derbyn i Ysgolion Casnewydd, pwyllgor statudol sydd â rôl allweddol o ran sicrhau system dderbyn deg.

Yn dilyn hynny, yn unol â'r Cod, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 8 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020 gyda'r rhestr ganlynol o ymgynghoreion statudol ac anstatudol:

Ymgynghoreion Statudol	
Corff llywodraethu'r ysgolion perthnasol	Cyrff llywodraethu pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a reolir yng Nghasnewydd
Pob awdurdod lleol cyfagos	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Cyngor Caerdydd Cyngor Sir Fynwy Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Awdurdodau derbyn ar gyfer pob ysgol arall a gynhelir yn yr ardal	Cyrff llywodraethu pob ysgol gymunedol a gwirfoddol a gynorthwyir yng Nghasnewydd
Yn achos ysgolion â chymeriad crefyddol, y person neu'r corff sy'n cynrychioli'r enwad crefyddol perthnasol	Cyfarwyddwr Esgobaethol, yr Eglwys yng Nghymru Cyfarwyddwr Esgobaethol, Catholig
Ymgynghoreion anstatudol	
Y fforwm derbyn sy'n gwasanaethu'r ardal	Fforwm Derbyn i Ysgolion Casnewydd
Rhieni plant sy'n mynychu'r ysgolion cynradd y mae'n debygol yr effeithir arnynt	Rhieni'r plant sy'n mynychu: <i>Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams</i> <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Gynradd Langstone</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd Somerton</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Penaethiaid	Penaethiaid pob ysgol yng Nghasnewydd yn ogystal â'r ysgolion canlynol yr effeithiwyd arnynt yn Sir Fynwy a Thorfaen: <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Aelodau Etholedig	Holl aelodau etholedig Cyngor Dinas Casnewydd
Cynghorau cymuned	Pob cyngor cymuned yng Nghasnewydd

Cynrychiolwyr o bersonél lluoedd arfog y DU	Swyddog Cyswllt Cyfamod y Lluoedd Arfog Rhanbarthol Hyrwyddwr Lluoedd Arfog Casnewydd Teuluoedd lluoedd arfog y DU sy'n mynychu ysgolion Casnewydd
Sefydliadau eraill	Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent Partneriaeth Datblygu'r Blynnyddoedd Cynnar a Gofal Plant Casnewydd
Timau Cyngor Dinas Casnewydd	Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc Y Gyfraith a Rheoleiddio Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Dechrau'n Deg Adfywio a Thai Trafnidiaeth Integredig Project Adleoli Pobl sy'n Agored i Niwed
Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion cynradd y mae'n debygol yr effeithir arnynt	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol: <i>Ysgol Gynradd Lodge Hill Caerllion</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams</i> <i>Ysgol Gynradd Goetre Fawr</i> <i>Ysgol Gynradd Langstone</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Pont-hir</i> <i>Ysgol Gynradd Somerton</i> <i>Ysgol Gynradd yr Eglwys Yng Nghymru Brynbuga</i>
Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion uwchradd perthnasol	Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion canlynol: Ysgol Gyfun Caerllion Ysgol Uwchradd Llanwern Ysgol Uwchradd Llyswry

Rhodddwyd cyhoeddusrwydd i'r ddogfen ymgynghori hefyd trwy dudalen 'Dweud eich dweud' y Cyngor a thrwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol.

Mae'r Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr wrth gynnig newidiadau i bolisiau. O ganlyniad, er nad yw'r Cod Derbyn i Ysgolion yn datgan y dylai ymgynghori gynnwys ymgysylltu â dysgwyr, ceisiwyd gwneud hyn. Hon oedd y flwyddyn gyntaf y rhodddwyd cynnig ar hyn mewn perthynas â'r ymgynghoriad blynnyddol ar drefniadau derbyn ac fe'i hwyluswyd drwy arolwg SNAP ar-lein a gylchredwyd drwy'r ysgolion a restrir yn yr adran uchod.

Cyhoeddwyd rhai o'r arolygon hyn yn hwyr yn y cyfnod ymgynghori, ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn cydnabod felly nad oedd yr ymgysylltu hwn mor effeithiol ag y bwriadwyd. O ganlyniad, mae Llais y Dysgwr yn anodd ei asesu'n effeithiol yn yr achos hwn. Er gwaethaf hyn, derbyniwyd 66 o ymatebion erbyn y dyddiad cau.

Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, lluniwyd adroddiad ymgynghori sy'n disgrifio'r broses ymgynghori a'r adborth a gafwyd. Mae'r adroddiad yn argymhell bod y newidiadau sy'n cael eu cynnig drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu i'w gweithredu. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

**3. Pa wybodaeth/tystiolaeth sydd gennych am randdeiliaid? e.e. barn, anghenion, defnydd ar wasanaethau ac ati. Nodwch yr holl dystiolaeth rydych yn ei hystyried sy'n berthnasol.**

Mae'r Cod Derbyn i Ysgolion yn darparu rhestr o gyrff y mae'n rhaid i awdurdodau derbyn ymgynghori â hwy ar newidiadau i drefniadau derbyn, a dylent wneud hynny. Cafodd dogfen ymgynghori ei

pharatoi a'i dosbarthu i'r rhanddeiliaid hyn. Cyflwynwyd sylwadau a chwestiynau a oedd yn codi i'r Cyngor ac fe'u hadlewyrchir yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.

Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd i gwblhau'r adroddiad ymgynghori yn cynnwys:

- Data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)
- Data penodol i ysgolion sy'n ymwneud â Chaerllion a Somerton (e.e. data ADY a BAME, amcanestyniadau ALI a thueddiadau derbyn)
- Ymatebion o'r ymgynghoriad
- Ymatebion arolwg disgyblion ar-lein


#### 4. Effaith ar y Gymraeg a Chydraddoldeb

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlynid cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Bydd y cynnig yn effeithio ar blant a phobl ifanc o oedran ysgol.</p> <p><b>Negyddol:</b> Mae'r cynnig yn ceisio newid dalgylchoedd ysgolion uwchradd. Bydd hyn yn debygol o effeithio'n negyddol ar blant oedran cynradd sy'n byw ar hyn o bryd yn yr ardaloedd yr effeithiwyd arnynt gan na fydd y flaenoriaeth dalgylch y maent yn elwa ohoni ar hyn o bryd yn gymwys mwyach. Gallai hyn effeithio'n arbennig ar ddisgyblion y mae eu brodyr a'u chwiorydd hŷn eisoes yn mynychu'r ysgol a ffeirir ac a gafodd eu derbyn pan oedd yn ysgol eu dalgylch. Fodd bynnag, bydd disgyblion o'r fath yn parhau i allu gwneud cais am yr ysgol a gallent fod yn gymwys ar gyfer blaenoriaethau eraill yn unol â'r meini prawf a gyhoeddwyd ar gyfer meini prawf gordanysgrifio e.e. blaenoriaeth brodyr a chwiorydd neu bellter o'r cartref i'r ysgol, yn dibynnu ar amgylchiadau teuluol unigol.</p> <p>Ni fydd plant oedran ysgol o deuluoedd Personél Gwasanaeth y DU sy'n symud i Gasnewydd o ganlyniad i ryddhau'r rhieni o'r gwasanaeth yn cael y fantais o gael lle gwarantedig yn yr ysgol o'u dewis ac, os yw'r ysgol eisoes yn llawn yn y grŵp blwyddyn perthnasol, caiff y cais ei wrthod. Fodd bynnag, byddant yn ddarostyngedig i'r un amodau â'r holl ymgeiswyr eraill o dan y polisi derbyn i ysgolion ac fel y cyfryw, bydd unrhyw benderfyniad i wrthod lle mewn ysgol yn sbarduno hawl yr ymgeisydd i apelio yn erbyn y penderfyniad i banel annibynnol.</p> <p><b>Cadarnhaol:</b> Bydd lleihau maint dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion, a thrwy hynny nifer y disgyblion yn y dalgylch, yn cynyddu nifer y lleoedd sydd ar gael i ymgeiswyr nad ydynt</p>

Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			<p>Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>Hyrwyddo cyfle cyfartal</li> <li>Hyrwyddo cydlynid cymunedol</li> <li>Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?</li> </ol>
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
				<p>yn byw yn y dalgylch, naill ai o fewn neu'r tu allan i Gasnewydd. Mae hyn yn golygu na fydd disgyblion Casnewydd yn cael eu dynodi'n flaenoriaeth is na disgyblion nad ydynt yn rhai Casnewydd mwyach. Yn ogystal, gan fod cyfran sylweddol o ddisgyblion Somerton eisoes yn dewis ysgol uwchradd Llanwern, bydd y newid yn y dalgylch yn cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant eu cais.</p> <p><b>Y naill na'r llall:</b> Gan fod gan y Cyngor drefniadau amrywiol ar waith i wasanaethu buddiannau plant sy'n agored i niwed, rhagwelir y bydd y cynnig i ddileu'r datganiad Amddiffyn Plant yn cael effaith niwtral ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p>
<b>Anabledd</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p> <p>Mae'r cynnig hwn yn berthnasol i dderbyniadau prif ffrwd yn unig ac nid i ddisgyblion sydd wedi'u lleoli mewn canolfannau adnoddau dysgu arbenigol. Mae pob ysgol uwchradd yng Nghasnewydd yn rhedeg darpariaeth fewnol i gynorthwyo disgyblion prif ffrwd ag ystod o anawsterau ond mae'r rhain yn cael eu hariannu o gyllidebau ysgolion. O ganlyniad, gall pob ysgol ddarparu'r un safon o ddarpariaeth brif ffrwd ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.</p>
<b>Ailbennu rhywedd / trawsryweddol</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p>
<b>Priodas neu bartneriaeth sifil</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p>
<b>Beichiogrwydd neu famolaeth</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p>
<b>Hil</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p> <p>Mae Gwasanaeth Lleiafrifoedd Ethnig Addysg Gwent yn gallu darparu'r un safon o gymorth iaith ym mhob ysgol gan fod cymorth o'r fath yn dibynnu ar angen ac ieithoedd sydd ar gael, waeth beth fo sail yr ysgol.</p>
<b>Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred</b>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<p>Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.</p>


Nodwedd a Ddiogelir	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adran isod. A yw'n: 1. Hyrwyddo cyfle cyfartal 2. Hyrwyddo cydlynid cymunedol 3. Helpu i leihau gwahaniaethu / aflonyddu / erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnha	Negyddol	Y naill	
Rhyw	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar y nodwedd a ddiogelir hon.
Y Gymraeg	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Bydd yr ysgolion yn dal i ddilyn y Cwricwlwm Cenedlaethol gan gynnwys y Cwricwlwm Cymreig. Yn ogystal, o fis Medi 2020, bydd cyrsiau Safon Uwch Cymraeg Ail Iaith yn cael eu cynnig yn Ysgol Gyfun Caerllion ac Ysgol Uwchradd Llanwern. Mae myfyrwyr ar gofrestr Ysgol Uwchradd Llyswyry sy'n dymuno gwneud Cymraeg Safon Uwch yn gallu manteisio ar y cyfle hwn drwy gydweithio ag Ysgol Sain Silian.  Fodd bynnag, mae'r cynnig yn annhebygol o wneud cyfraniad ystyriol i darged 5 mlynedd Casnewydd i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar draws y ddinas.



## 5 Sut mae eich cynnig wedi ymwreiddio a blaenoriaethu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ei ddatblygu?

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p>Long Term</p> <p>Cydbwysu angen tymor byr gydag anghenion tymor hir</p>	<p>Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd gan 1,949 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2019. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos, erbyn 2024 y bydd 14,097 o blant ysgol gynradd a 12,260 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd sy'n 2,038 o blant ychwanegol o'u cymharu â 2019.</p> <p>Roedd y tri chohort ar gyfer rownd dderbyn flynyddol Medi 2019 y mwyaf hyd yma gyda galw digynsail am leoedd Blwyddyn 7 trwy gyfrwng Saesneg ledled y ddinas gyfan. Mewn ymateb i'r galw, cyd-drafododd y Cyngor i gael lleoedd ychwanegol Blwyddyn 7 ar draws pedair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol hwn. Mae mater tebyg wedi codi ers hynny mewn perthynas â chohort Blwyddyn 7 ym mis Medi 2020, gyda darpariaeth ychwanegol yn cael ei chreu mewn dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell 10% fel y lefel orau bosibl o leoedd gwag mewn ysgolion. O ran lleoedd cyfrwng Saesneg, dim ond 7.6% o leoedd gwag sydd gan ysgolion cynradd Casnewydd a 9.6% o leoedd gwag yn yr ysgolion uwchradd. Er y byddai'n ymddangos bod canran y lleoedd gwag hyn yn yr ysgolion uwchradd yn cyd-fynd yn fras ag argymhelliad Llywodraeth Cymru, mae'n werth nodi bod elfen sylweddol o'r lleoedd gwag hyn mewn dwy ysgol yn unig, ac mae'r ddwy hyn yn nwyrain y ddinas (Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Uwchradd Llyswyry). Yn ogystal, mae nifer gwirioneddol y lleoedd gwag yn llawer is ym mlynnyddoedd 7 ac 8 nag ym mlynnyddoedd 9, 10 ac 11.</p> <p>Mae hyn hefyd yn bryder yng nghyd-destun y nifer sylweddol o geisiadau ysgol yn ystod y flwyddyn yr arferid eu cael mewn blynnyddoedd blaenorol. Felly mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i ddisgyblion Casnewydd ledled y ddinas, trwy amrywiaeth o ddulliau.</p>

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p data-bbox="145 1133 411 1200">Cydweithio i gyflawni amcanion</p>	<p data-bbox="459 304 1407 607">Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r awdurdod lleol (ALI) y mae'r disgybl yn preswyllo ynddi sy'n gyfrifol am bennu ysgolion dalgyloch amgen. O ganlyniad, hysbyswyd ALLau Sir Fynwy a Thorfaen ym mis Medi 2019 ei bod yn debygol y byddai Casnewydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y sail hon. Ymatebodd y ddau ALI wedyn i'r ymgynghoriad ffurfiol. Nododd Torfaen na fyddent yn gallu darparu ar gyfer y disgyblion sydd wedi'u dadleoli (Pont-hir) yn barod ar gyfer Medi 2021. Mewn ymateb, nododd Casnewydd eu bod wedi hysbysu Torfaen o'r cynnig ym mis Medi 2019, gan roi bron dwy flynedd o rybudd o'r newid.</p> <p data-bbox="459 622 1407 723">Ar ôl ystyried newidiadau tebyg yn 2019 i gael eu rhoi ar waith yn 2020, roedd Sir Fynwy o blaid cynnig Casnewydd yn fras. Fodd bynnag, roeddent yn gofyn i ystyriaeth gael ei rhoi i'r ddau fater isod:</p> <ul data-bbox="507 741 1407 1137" style="list-style-type: none"> <li>• Ardal o fewn ffin Sir Fynwy sydd ar hyn o bryd yn rhan o ddalgyloch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Charles Williams (ysgol wirfoddol a gynorthwyr yw hon sy'n gyfrifol am ei threfniadau derbyn ei hun). Cafodd yr ardal hon ei hepgor o gynnig Sir Fynwy ac felly mae mewn perygl bellach o fod heb ysgol ddalgyloch uwchradd wedi'i dynodi. Ni nodwyd hyn fel problem gan unrhyw barti cyn lansio ymgynghoriad Casnewydd;</li> <li>• Dylid rhoi blaenoriaeth ychwanegol i ddisgyblion y cafodd eu brodyr a'u chwirydd hŷn eu derbyn i Ysgol Gyfun Caerllion pan oedd yr ysgol honno'n ysgol ddalgyloch iddynt.</li> </ul> <p data-bbox="459 1160 1407 1563">Er ein bod yn cydymdeimlo o ran y materion a godwyd mewn perthynas â'r pwynt cyntaf, byddai hyn yn arwain at rywfaint o anghysondeb ag ardaloedd eraill yn Sir Fynwy a Thorfaen, ac felly, ar ôl peth ystyriaeth, penderfynwyd nad yw'n ymddangos yn rhesymol i gymeradwyo'r cais hwn. Mewn ymateb i'r sylw am gysylltiadau â brodyr a chwirydd, mae'r Cyngor yn cynghori y byddai rhieni disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt yn dal yn gallu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er byddant yn cael eu hystyried fel ymgeiswyr y tu allan i'r dalgyloch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgyloch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini prawf, a bydd gan y rhai sydd â brodyr/chwirydd perthnasol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol a ffefrir flaenoriaeth uwch o ran sicrhau lle.</p> <p data-bbox="459 1581 1407 1715">Cynhaliwyd ymgysylltiadau ymlaen llaw â chyrrff llywodraethu Ysgol Gyfun Caerllion, Ysgol Uwchradd Llanwern, Ysgol Uwchradd Llyswry ac Ysgol Gynradd Somerton ond ni chafwyd unrhyw ymatebion ffurfiol yn ystod yr ymgynghoriad.</p> <p data-bbox="459 1733 1407 1834">Roedd y cynnig yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn rhwng 8 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020, yn unol â gofynion cod derbyn i ysgolion statudol Llywodraeth Cymru.</p>



Egwyddor Datblygu Cynaliadwy	A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.
 <p>Involvement</p> <p>Cynnwys pawb sydd â diddordeb a cheisio eu barn</p>	<p>Mae'n ofyniad statudol yn y Cod Derbyn i Ysgolion bod y Cyngor yn cynnal ymgynghoriad blynyddol ar ei drefniadau derbyn i ysgolion. Rhaid i'r ymgynghoriad ddod i ben erbyn 1 Mawrth bob blwyddyn fel y gellir penderfynu ar y trefniadau derbyn sy'n deillio o hynny, naill ai ar eu ffurf wreiddiol neu gyda'r cyfryw addasiadau y mae'r Cyngor yn eu hystyried yn briodol, erbyn 15 Ebrill yn y flwyddyn benderfynu. Y flwyddyn benderfynu yw'r flwyddyn ysgol sy'n dechrau ddwy flynedd cyn y flwyddyn ysgol y bydd y trefniadau'n berthnasol iddi.</p> <p>Cyn i'r cynnig gael ei lansio, hysbyswyd ALLau Sir Fynwy a Thorfaen ym mis Medi 2019 ei bod yn debygol y byddai Casnewydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y sail hon. Ym mis Tachwedd 2019, cyflwynwyd y newidiadau arfaethedig i fforwm Derbyn i Ysgolion Casnewydd, pwyllgor statudol sydd â rôl allweddol o ran sicrhau system dderbyn deg.</p> <p>Yn dilyn hynny, yn unol â'r Cod, cynhaliwyd ymgynghoriad ffurfiol rhwng 8 Ionawr 2020 a 28 Chwefror 2020 gyda'r rhestr o ymgynghoreion statudol ac anstatudol a amlinellir yn yr ymateb i gwestiwn 2. Rhoddwyd cyhoedduswydd i'r ddogfen ymgynghori hefyd trwy dudalen 'Dweud eich dweud' y Cyngor a thrwy ei sianeli cyfryngau cymdeithasol.</p> <p>Mae'r Cyngor yn awyddus i gael barn dysgwyr wrth gynnig newidiadau i bolisiau. O ganlyniad, er nad yw'r Cod Derbyn i Ysgolion yn datgan y dylai ymgynghori gynnwys ymgysylltu â dysgwyr, ceisiwyd gwneud hyn. Hon oedd y flwyddyn gyntaf y rhoddwyd cynnig ar hyn mewn perthynas â'r ymgynghoriad blynyddol ar drefniadau derbyn ac fe'i hwyluswyd drwy arolwg SNAP ar-lein a gylchredwyd drwy'r ysgolion a restrir yn yr adran uchod.</p> <p>Cyhoeddwyd rhai o'r arolygon hyn yn hwyr yn y cyfnod ymgynghori, ac mae'r Gwasanaeth Addysg yn cydnabod felly nad oedd yr ymgysylltu hwn mor effeithiol ag y bwriadwyd. O ganlyniad, mae Llais y Dysgwr yn anodd ei asesu'n effeithiol yn yr achos hwn. Er gwaethaf hyn, derbyniwyd 66 o ymatebion erbyn y dyddiad cau.</p> <p>Ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben, lluniwyd adroddiad ymgynghori sy'n disgrifio'r broses ymgynghori a'r adborth a gafwyd. Mae'r adroddiad yn argymhell bod y newidiadau sy'n cael eu cynnig drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu i'w gweithredu. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.</p>

<p><b>Egwyddor Datblygu Cynaliadwy</b></p>	<p><b>A yw eich cynnig yn dangos eich bod wedi bodloni'r egwyddor hwn? Disgrifiwch sut.</b></p>
<div data-bbox="204 638 359 817" style="text-align: center;">  <p>Prevention</p> </div> <p>Defnyddio adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethygu</p>	<p>Mae poblogaeth Casnewydd yn parhau i gynyddu a chyda hi, nifer y plant oedran ysgol. Bu cynnydd gan 1,949 o blant mewn ysgolion yng Nghasnewydd rhwng 2011 a 2019. Mae rhagolygon poblogaeth disgyblion yn dangos, erbyn 2024 y bydd 14,097 o blant ysgol gynradd a 12,260 o blant ysgol uwchradd yng Nghasnewydd sy'n 2,038 o blant ychwanegol o'u cymharu â 2019.</p> <p>Roedd y tri chohort ar gyfer rownd dderbyn flynyddol Medi 2019 y mwyaf hyd yma gyda galw digynsail am leoedd Blwyddyn 7 trwy gyfrwng Saesneg ledled y ddinas gyfan. Mewn ymateb i'r galw, cyd-drafododd y Cyngor i gael lleoedd ychwanegol Blwyddyn 7 ar draws pedair ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg ar gyfer y grŵp blwyddyn penodol hwn. Mae mater tebyg wedi codi ers hynny mewn perthynas â chohort Blwyddyn 7 ym mis Medi 2020, gyda darpariaeth ychwanegol yn cael ei chreu mewn dwy ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell 10% fel y lefel orau bosibl o leoedd gwag mewn ysgolion. O ran lleoedd cyfrwng Saesneg, dim ond 7.6% o leoedd gwag sydd gan ysgolion cynradd Casnewydd a 9.6% o leoedd gwag yn yr ysgolion uwchradd. Er y byddai'n ymddangos bod canran y lleoedd gwag hyn yn yr ysgolion uwchradd yn cyd-fynd yn fras ag argymhelliad Llywodraeth Cymru, mae'n werth nodi bod elfen sylweddol o'r lleoedd gwag hyn mewn dwy ysgol yn unig, ac mae'r ddwy hyn yn nwyrain y ddinas (Ysgol Uwchradd Llanwern ac Ysgol Uwchradd Llyswry). Yn ogystal, mae nifer gwirioneddol y lleoedd gwag yn llawer is ym mlynnyddoedd 7 ac 8 nag ym mlynnyddoedd 9, 10 ac 11.</p> <p>Mae hyn hefyd yn bryder yng nghyd-destun y nifer sylweddol o geisiadau ysgol yn ystod y flwyddyn yr arferid eu cael mewn blynnyddoedd blaenorol. Felly mae'r Cyngor yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd ysgol sydd ar gael i ddisgyblion Casnewydd ledled y ddinas, trwy amrywiaeth o ddulliau.</p>
<div data-bbox="220 1512 359 1691" style="text-align: center;">  <p>Integration</p> </div> <p>Ystyried effaith ar bob nod llesiant ar y cyd ac ar gyfferaill</p>	<p>Mae'r cynnig hwn yn cefnogi'r amcan lles i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfluoedd cyflogaeth a'r nodau lles canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>Cymru Wydn;</i></li> <li>• <i>Cymru sy'n fwy cyfartal;</i></li> <li>• <i>Cymru o gymunedau mwy cydlynol;</i></li> <li>• <i>Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang</i></li> </ul> <p>Cyflawnir y rhain drwy wella mynediad i addysg ar draws y ddinas drwy fabwysiadu polisi derbyn gwell, teg a chyson, drwy alinio dalgylchoedd cynradd a chlystyrau uwchradd i gefnogi gweithio effeithiol mewn partneriaeth a phontio effeithiol, a thrwy sicrhau bod digon o leoedd ysgol i ddisgyblion Casnewydd.</p> <p>Yn ystod yr ymgynghoriad, cyfeiriodd ymatebion at bryder ynghylch cydlyniant cymunedol yn ardal ehangach Caerllion. Er bod dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion wedi ymestyn yn draddodiadol i ardaloedd Brynbuga, Goetre a Phont-hir, mae'r galw am leoedd mewn ysgolion ymhlith preswylwyr Casnewydd yn golygu nad yw hyn yn gynaliadwy mwyach. Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch.</p>

## 6 A fydd y cynnig / polisi'n cael effaith anghymesur ar ardal ddaearyddol benodol yng Nghasnewydd?

Er y bydd y newidiadau arfaethedig i'r dalgylch yn effeithio'n benodol ar rai wardiau (Alway, Caerllion a Llyswry), mae'r newidiadau arfaethedig mewn perthynas â theuluoedd y Lluoedd Arfog a phlant ar y gofrestr amddiffyn plant i'w gweld ar draws y ddinas.

## 7 Sut mae'r cynnig / polisi'n perthyn i'r paramedrau trafod ynghylch Tegwch a nodwyd gan Gomisiwn Tegwch Casnewydd?

### Paramedr 1: Triniaeth gyfartal wrth gydnabod gwahaniaeth

Mae'r cynnig i newid y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion yn dileu'r flaenoriaeth sydd gan ddisgyblion nad ydynt o Gasnewydd ar hyn o bryd dros ddisgyblion o Gasnewydd. Os cymeradwyir y cynnig, bydd pob disgybl nad yw'n byw o fewn y dalgylch, p'un a yw'n byw yng Nghasnewydd neu'r tu allan iddi, yn cael ei ystyried yn gyfartal o ran blaenoriaeth i'w derbyn i'r ysgol hon. Mae'n bwysig nodi nad yw'r cynnig hwn yn eithrio unrhyw ymgeiswyr rhag mynegi dewis ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion. Mae lleihau maint y dalgylch yn cynyddu'r cyfle i geisiadau y tu allan i'r dalgylch fod yn llwyddiannus. O ganlyniad, gall ymgeiswyr barhau i wneud cais am le yn yr ysgol hon, a bydd rhai ceisiadau yn sicr o fod yn llwyddiannus ar sail blaenoriaeth brodyr/chwirydd a/neu bellter o'r cartref i'r ysgol.

Mae'r cynnig mewn perthynas ag Ysgol Gynradd Somerton yn rhesymegol i alluogi'r ddwy ysgol o fewn Partneriaeth Ysgolion Cynradd Eveswell a Somerton i weithio mewn un clwstwr unigol. Wrth fwrw ymlaen â hyn, rhoddwyd ystyriaeth i ddau ddewis – symud Eveswell i Llyswry neu symud Somerton i Lanwern. Fodd bynnag, mae'r ail ddewis yn well oherwydd lleoliad Ysgol Gynradd Somerton, a'r ffaith bod nifer derbyn cyfun y cohortau blwyddyn 6 yn yr ysgolion cynradd yng nghlwtwr presennol Llyswry yn fwy na nifer derbyn yr ysgol uwchradd.

Mae'r cynnig yn ymwneud â phlant personél gwasanaeth y DU yn cysoni polisi Casnewydd â'r canllawiau a amlinellir yn y Cod Derbyn i Ysgolion statudol. Er gwaethaf y newid hwn, rhagwelir y byddai trefniadau'r polisi diwygiedig yn parhau i gefnogi'r personél penodol hynny y mae'n ofynnol iddynt symud ar fyr rybudd ac na allant, o ganlyniad, gydymffurfio â'r gweithdrefnau derbyn i ysgolion arferol.

O ran y cynnig mewn perthynas â disgyblion sydd ar y gofrestr amddiffyn plant, rhaid i awdurdodau derbyn sicrhau na fydd eu trefniadau yn achosi anfantais annheg i blentyn o grŵp cymdeithasol penodol. Oherwydd bod gan y Cyngor drefniadau amrywiol ar waith ar gyfer buddiannau plant sy'n agored i niwed, nid yw'n ofynnol rhoi blaenoriaeth benodol i blant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant.

### Paramedr 2: Rhwymedigaethau ar y cyd rhwng dinasyddion a'r llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau mai'r awdurdod lleol (ALI) y mae'r disgybl yn preswyllo ynddi sy'n gyfrifol am bennu ysgolion dalgylch amgen. O ganlyniad, hysbyswyd ALLau Sir Fynwy a Thorfaen ym mis Medi 2019 ei bod yn debygol y byddai Casnewydd yn bwrw ymlaen ag ymgynghoriad ar y sail hon.

### Paramedr 3: Rhyng-ddibyniaeth a chilyddiaeth o fewn perthnasoedd cymunedol

Er bod dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion wedi ymestyn yn draddodiadol i ardaloedd Brynbuga, Goetre a Phont-hir, mae'r galw am leoedd mewn ysgolion ymhlith preswylwyr Casnewydd yn golygu nad yw hyn yn gynaliadwy mwyach. Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch.

### Paramedr 4: Tryloywder ac atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau

Mae'r cynnig hwn wedi bod yn destun ymgynghori yn unol â'r canllawiau a amlinellir yn y Cod Derbyn i Ysgolion. Argymhellir bod y newidiadau a gynigiwyd trwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu i'w gweithredu o fis Medi 2021. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg

a Sgiliau a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

### 8. Effeithiau Cydraddoldeb a Chamau Gweithredu

Derbyniwyd 52 o ymatebion yn ystod y cyfnod ymgynghori, ac roedd pob un ohonynt yn ymwneud â'r cynnig i ddiwygio'r dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion. O'r rhain, roedd 47 o'r ymatebion yn mynegi pryder am y cynnig. Nid oedd y pum ymateb arall yn cefnogi nac yn gwrthwynebu'r cynnig, ond roeddent yn codi cwestiynau ynglŷn â'u hamgylchiadau penodol. Ymhlith yr ymatebwyr roedd disgyblion, rhieni/gofalwyr, aelodau o'r cyhoedd, a chynghorau cymuned, cyrff llywodraethu, Aelodau Seneddol, Aelodau Etholedig, awdurdodau lleol cyfagos ac Esgobaeth Mynwy. Er bod rhai ymatebwyr wedi codi mwy nag un mater yn eu hymateb, mae dadansoddiad o nifer a math y gwrthwynebiadau, ynghyd ag ymatebion y Cyngor, wedi'i grynhoi fel a ganlyn:

Effaith a nodwyd	Ar bwy y mae'n effeithio?	Beth wnewch i liniaru'r effaith? Os ydych yn bwriadu peidio â gweithredu, cyfiawnhewch eich rhesymeg	Pwy sy'n gyfrifol amdano?
Yr effaith ar gydlyniant cymunedol lleol a lles disgyblion	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Er bod dalgylch Ysgol Gyfun Caerllion wedi ymestyn yn draddodiadol i ardaloedd Brynbuga, Goetre a Phont-hir, mae'r galw am leoedd mewn ysgolion ymhlith preswylwyr Casnewydd yn golygu nad yw hyn yn gynaliadwy mwyach. Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch.	Cyngor Dinas Casnewydd  Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  Cyngor Sir Fynwy
Pellter i ysgol amgen a diogelwch llwybrau teithio rhwng y cartref a'r ysgol	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgylch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini prawf, a bydd gan y rhai sy'n nes at yr ysgol gyfle gwell o sicrhau lle. O ran ysgolion amgen, gall yr awdurdod lleol lle rydych yn byw ddarparu cludiant o'r cartref i'r ysgol yn unol â'r polisi y cytunwyd arno.	Cyngor Dinas Casnewydd  Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  Cyngor Sir Fynwy
Yr effaith ar bontio a brodyr/chwirydd	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y	Serch hynny, bydd rhieni yn dal i allu gwneud cais am le yn Ysgol Gyfun Caerllion, er bydd hynny fel ymgeiswyr o'r tu allan i'r dalgylch. Os bydd gormod o alw am yr ysgol, caiff pob cais y tu allan i'r dalgylch ei asesu'n gyfartal yn erbyn yr un meini	Cyngor Dinas Casnewydd  Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

	dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	prawf, a bydd gan y rhai sydd â brodyr/chwiorydd perthnasol sydd eisoes yn mynychu'r ysgol a ffeirir flaenoriaeth uwch o ran sicrhau lle. Bydd trefniadau pontio yn parhau i gael eu hwyluso rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd ar ôl i le mewn ysgol uwchradd gael ei gynnig.	Cyngor Sir Fynwy
Yr effaith amgylcheddol a lles cenedlaethau'r dyfodol	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Dynodwyd Caerllion yn ardal rheoli ansawdd aer oherwydd y lefelau uchel o lygredd a achosir gan draffig ffyrdd. Bydd unrhyw leihad yn nifer y cerbydau sy'n teithio drwy Gaerllion yn helpu i liniaru rhywfaint o'r pwysau sy'n achosi'r lefelau llygredd uchel. Yn ogystal, yn adroddiad diweddar Centre for Cities ( <a href="https://www.centreforcities.org/city/newport">https://www.centreforcities.org/city/newport</a> ), Casnewydd yw'r trydydd allyrrwr mwyaf y pen o garbon deuocsid, un o'r nwyon tŷ gwydr. Bydd lleihau pellter cymudo i'r ysgol yn debygol o arwain at ostyngiad yn y nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir. Er bod y ddau ostyngiad (llygredd aer a charbon deuocsid) yn gymharol fach o ystyried y sefyllfa ehangach, mae pob gweithred fach y gellir ei gwneud i leihau pellteroedd cymudo yn gallu cyfrannu at welliant cyffredinol. O ystyried nad oes unrhyw fwriad i gynyddu nifer cyffredinol y lleoedd yn yr ysgol uwchradd, ni fydd nifer y disgyblion sy'n teithio i'r ysgol o'r tu allan i Gaerllion yn newid yn sylweddol.	Cyngor Dinas Casnewydd
Y broses a'r fethodoleg ymgynghori	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Mae'r ymgynghoriad yn cydymffurfio â Chod Derbyn i Ysgolion statudol Llywodraeth Cymru ac mae'n cyd-fynd â threfniadau tebyg mewn blynyddoedd blaenorol.	Cyngor Dinas Casnewydd

## ATODIAD 2

Yr effaith ar safonau addysgol	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Ni ragwelir unrhyw effaith negyddol ar y safonau oherwydd y cynnig hwn yn unrhyw un o ysgolion cynradd neu uwchradd Casnewydd.	Cyngor Dinas Casnewydd
Cost cludiant amgen o'r cartref i'r ysgol	Disgyblion sy'n byw yn Sir Fynwy a Thorfaen na fyddant yn cael eu hystyried mwyach fel rhai sy'n byw o fewn y dalgylch ar gyfer Ysgol Gyfun Caerllion	Mae pob awdurdod lleol yn gyfrifol am gytuno ar bolisi cludiant unigol rhwng y cartref a'r ysgol i gefnogi mynediad i'r ysgol. Mae polisi Casnewydd yn darparu cludiant am ddim i'r disgyblion hynny sy'n byw tair milltir neu fwy o'u hysgol ddalgylch neu'r ysgol agosaf sydd ar gael. Os bydd rhieni'n gwneud cais i'w plentyn fynychu ysgol nad yw'n ysgol ddalgylch iddynt neu'r ysgol agosaf sydd ar gael, y rhieni sy'n gwbl gyfrifol am yr holl gostau a threfniadau cludiant. Felly ni ragwelir y bydd y costau i Gasnewydd yn cynyddu oherwydd y cynnig hwn ond cydnabyddir y gallai fod effaith ar ALLau eraill.	Cyngor Dinas Casnewydd  Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen  Cyngor Sir Fynwy

## 9. Monitro, gwerthuso ac adolygu

Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol, caiff Polisi Derbyn i Ysgolion y Cyngor ei adolygu'n flynyddol ac ymgynghorir arno. Caiff effeithiolrwydd trefniadau derbyn ei fonitro gan Fforwm Derbyniadau Ysgolion Casnewydd, sy'n cwrdd bob tymor. Cyflwynir adroddiad blynyddol Fforwm Derbyn i Lywodraeth Cymru bob tymor yr Hydref.

## 10. Cynnwys Pobl

Fel yr amlinellwyd, mae'r trefniadau derbyn ar gyfer 2021 wedi bod yn destun ymgynghoriad â rhanddeiliaid ac mae adroddiad ymgynghori wedi'i ddrafftio sy'n amlinellu'r dull ymgynghori a'r adborth a gafwyd.

Mae'r adroddiad yn argymhell bod y newidiadau sy'n cael eu cynnig drwy'r ymgynghoriad hwn yn cael eu datblygu i'w gweithredu o fis Medi 2021. Caiff y penderfyniad hwn ei gyfeirio at yr Aelod Cabinet dros Addysg a Sgiliau a bydd yn mynd trwy broses ddemocrataidd gytunedig y Cyngor.

Yn unol â'r Cod Derbyn i Ysgolion statudol, rhaid penderfynu ar y newidiadau hyn erbyn 15 Ebrill a'i gadarnhau i randdeiliaid erbyn 29 Ebrill. Bydd y polisi newydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd erbyn y dyddiad hwn.